# Cynllun Gweithredu - Rhaglen newid i baratoi ar gyfer gweithredu graddfeydd cyhoeddedig

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

## Cam 1: Cynllunio a Chwmpasu

Mae'r cam cyntaf yn gyfle i ystyried yr holl argymhellion yn yr adroddiad gwerthuso.

Mae hyn yn cynnwys cynlluniau manwl ar gyfer ymgysylltu a chydweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn paratoi ar gyfer cyhoeddi graddau ym mis Ebrill 2025.

## Cam 2: Ymgysylltu a Chyd-gynhyrchu

Gweithio ar y cyd â'r sector i ddatblygu'r cynlluniau cyflawni manwl. Bydd grŵp rhanddeiliad yn adolygu strwythur y graddau ac yn cyd-gynllunio unrhyw newidiadau.

Pecynnau gwaith penodol wedi'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y graddau yn effeithiol ac yn gyson.

## Cam 3: Cwblhau a Pharatoi

Allbynnau Cam 2 wedi'u cwblhau a'u cyfathrebu'n eang. Bydd y fframwaith arolygu, gan gynnwys y canllawiau, yn cael eu cwblhau'n derfynol.

Cyfnod o hyfforddi, cefnogi a myfyrio ar gyfer ein harolygwyr yw hwn.

## Cam 4: Adolygu a Dysgu

Adolygu a dysgu o'r graddau yw'r cam olaf.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull graddau er mwyn sicrhau gwelliant.

# Cam 1: Cynllunio a Chwmpasu

| Tasg | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|
| Cyhoeddi a rhannu'r adroddiad gwerthuso â rhanddeiliaid allweddol | Mehefin 2024 |
| Rhoi trefniadau llywodraethu ar waith ar gyfer y prosiect, gan gynnwys bwrdd prosiect AGC newydd a grwpiau pecynnau gwaith | Gorffennaf 2024 |
| Cynnal digwyddiadau cychwynnol i ddarparwyr er mwyn rhannu canfyddiadau'r adroddiad gwerthuso a thrafod argymhellion a'r camau nesaf | Gorffennaf 2024 |
| Sefydlu grŵp tasgau sy'n cynnwys darparwyr, comisiynwyr ac aelodau mewnol o'r grŵp llywio | Gorffennaf 2024 |
| Hyrwyddo ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn eang ym mhob rhan o'r sector ac ymysg rhanddeiliaid allweddol | Awst 2024 |

# Cam 2: Ymgysylltu a Chyd-gynhyrchu

| Tasg | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|
| Datblygu pecynnau gwaith manwl ar gyfer pob maes gwaith allweddol, a sefydlu grwpiau arbenigol er mwyn datblygu'r gwaith hwn | Hydref 2024 |
| Cytuno ar ‘strwythur’ y graddau - sut beth fydd y graddau a'r disgrifyddion ail-ddylunio ar gyfer pob gradd | Tachwedd 2024 |
| Cydlynu calendr o ddigwyddiadau i ddarparwyr / comisiynwyr er mwyn rhannu ymarfer cadarnhaol a chanllawiau ar sicrhau ‘rhagoriaeth’ | Rhagfyr 2024 |
| Adolygu pob canllaw ategol ar gyfer darparwyr ac arolygwyr | Ionawr 2025 |
| Datblygu dulliau er mwyn galluogi darparwyr i arddangos eu graddau yn gyhoeddus | Chwefror 2025 |

# Cam 3: Cwblhau a Pharatoi

| Tasg | Dyddiad Cwblhau |
| --- | --- |
| Cyhoeddi'r holl wybodaeth berthnasol a'r canllawiau ar wefan AGC | Ionawr 2025 |
| Sefydlu gweithgorau er mwyn sicrhau bod dull strategol ac aliniedig ar waith ar gyfer effeithiau posibl y graddau | Ionawr 2025 |
| Rhoi rhaglen hyfforddiant parhaus ar waith ar gyfer pob arolygwr, gan gynnwys sesiynau ‘oedi a myfyrio’ rheolaidd er mwyn rhannu meysydd o ymarfer cadarnhaol ac unrhyw bryderon | Tachwedd 2024 |
| Gwella'r broses gyfathrebu â phob rhanddeiliad er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth o'r gweithredu sydd ar ddod | Ebrill 2025 |
| Gwella'r broses gyfathrebu â'r cyhoedd, yn benodol â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u gofalwyr, am y newidiadau | Ebrill 2025 |

# Cam 4: Adolygu a Dysgu

| Tasg | Dyddiad Cwblhau |
| --- | --- |
| Gwerthuso taith gweithredu graddau AGC - beth sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn y gallwn ei ddysgu | Hydref 2025 |
| Cydlynu amrywiaeth o weithdai i rannu arfer da er mwyn helpu a chefnogi'r gwasanaethau hynny sydd wedi cael graddau llai ffafriol ac sydd angen gwella'r prif feysydd | Hydref 2025 |
| Adolygu'r broses o gyhoeddi graddau gyda rhanddeiliaid | Hydref 2027 |
| Cyflwyno sesiynau ymarfer myfyriol i arolygwyr er mwyn cynnal cysondeb mewn ymarfer | Parhaus |
| Cyhoeddi gwybodaeth am ein perfformiad i roi sicrwydd ynghylch effaith ein gwaith | Hydref 2026 |